Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Alun Thomas
Prif Weithredwr
Hafal

18 Chwefror 2021

Annwyl Mr Thomas,

**Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Chwefror 2021 ynglŷn ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Mae'r Pwyllgor o’r un farn â chi ynglŷn â phwysigrwydd ariannu gwasanaethau iechyd meddwl yn dda, yn enwedig o ystyried y lefelau uwch o salwch meddwl sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft sy’n nodi effaith niweidiol y pandemig ar iechyd meddwl, ac mae'n cydnabod bod yn rhaid dyrannu cyllid yn benodol i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl.

Er bod y Pwyllgor yn credu'n gryf bod yn rhaid buddsoddi mewn mesurau ataliol sy'n cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl ac yn cyfrannu at well iechyd meddwl ledled Cymru, nid oedd gan y Pwyllgor farn ynghylch sut y dylai cyllid gael ei ddyrannu o ran bodloni argymhelliad 14. Fodd bynnag, byddai'r Aelodau'n gobeithio na fyddai unrhyw fesurau ataliol yn digwydd ar draul y cyllid sydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl rheng flaen.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565